# Cludiant Cyngor Sir Powys o'r Cartref i'r Ysgol a Covid-19

## Cyfarwyddyd i rieni

**Mehefin 2020**

Yn dilyn y cyhoeddiad a wnaed ar 3 Mehefin 2020 gan Lywodraeth Cymru i ailagor ysgolion yng Nghymru ar y 29 Mehefin 2020, roeddem eisiau dweud wrthych chi'r hyn yr ydym yn ei wneud i sicrhau fod teithiau ein dysgwyr, a'ch plant a'u brodyr a chwiorydd i'r ysgol ac oddi yno mor ddiogel ag sy'n bosibl, ac i roi sicrwydd i chi ein bod ni, a'r gweithredwyr yr ydym yn gweithio â hwy, wedi rhoi'r mesurau a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ar waith i ddiogelu'r sawl sy'n dewis teithio ar gludiant ysgol.

Rydym am fod yn glir iawn. **Ein neges yw y dylai rhieni deithio gyda'u plant yn ol ac ymlaen i'r ysgol, yn ddelfrydol ar droed, neu ar feic, sgwter neu mewn unrhyw ddull arall o deithio, lle bo hynny'n bosibl.** Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli na fydd hyn yn ymarferol i'r rhai ohonoch sy'n byw mewn cymunedau mwy gwledig ac efallai y byddwch am eu cludo i'r ysgol yn eich car. Os oes rhaid i chi ddefnyddio cludiant sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor, bydd y canllawiau yma'n eich helpu i ddeall yr hyn rydym yn ei wneud, a'r hyn rydym yn disgwyl ohonoch chi a'ch plant wrth gael eu cludo i'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn ystyried iechyd, diogelwch a lles eich plant o ddifrif ac rydym yn rhoi diogelwch teithwyr ar flaen ac wrth wraidd ein holl weithgareddau wrth wneud penderfyniadau. Ond mae angen i ni hefyd sicrhau fod ein staff a'n contractwyr yn parhau'n ddiogel hefyd, felly rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n darparwyr cludiant i gynllunio'r ffordd y byddwn yn dychwelyd at wasanaeth ac i wneud yn siŵr fod ein cludiant mor ddiogel ag sy'n bosibl i bawb sy'n teithio.

Mae'n debygol iawn y bydd rhaid i ni gydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol am gryn amser, felly bydd angen i ni addasu i 'normal newydd' a newid i set newydd o ymddygiadau. Isod rydym wedi nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i gyflwyno cludiant diogel a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein teithwyr, rhieni a gofalwyr.

**Mae'n bwysig iawn, cyn eich bod yn anfon eich plentyn i'r ysgol, gwiriwch nad yw eich plentyn yn arddangos unrhyw un o symptomau coronafeirws.**

**Peidiwch â gadael adref** os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi y symptomau canlynol:

- Tymheredd uchel
- Peswch newydd parhaus
- Wedi colli eu synnwyr o arogli neu flasu, neu unrhyw newid i hyn

Edrychwch ar wefan GIG Cymru os oes gennych chi symptomau neu eich bod

Nid yw'r rhestr hon yn un holl gynhwysfawr felly cofiwch edrych ar wefan GIG Cymru.

# Mae cludiant diogel yn dibynnu arnom oll yn gwneud ein rhan

**Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl oddi wrthym ni:**

- Gall ein gyrwyr a theithwyr wisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) lle y ceir asesiad fod hyn yn briodol. Byddwn yn darparu hylif diheintio dwylo ar y bysiau ac fe fyddwn yn gofyn iddynt olchi eu dwylo yn rheolaidd pan fo cyfleusterau ar gael.
- Rydym wedi gofyn i'r cerbydau gael eu glanhau'n drwyadl wedi pob taith, yn barod am y daith nesaf
- Fe fyddwn, lle bo hynny'n bosibl, yn cael yr un staff a cherbyd yn cludo eich plentyn pob diwrnod
- Bydd gyrwyr/cynorthwywyr teithio yn rhoi cyfarwyddiadau clir i deithwyr wrth iddynt fynd ar y bws ac oddi arno
- Bydd rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn cyn belled ag y bo'n ymarferol i wneud hynny – er enghraifft, os yw dysgwr/dysgwraig yn teithio mewn cadair olwyn sydd angen ei glymu lawr i'w chadw'n ddiogel, bydd hyn yn cael ei wneud mor ofalus ag sy'n bosibl ond ni ellir ei wneud o 2 medr ymaith
- Lle bydd disgybl yn cael ei gasglu o gyfeiriad ei gartref ac y bydd angen gwisgo gwregys diogelwch, bydd aelod o gartref y plentyn, yn ddelfrydol, yn cynorthwyo gyda hyn os na all y plentyn glymu'r gwregys diogelwch ei hunan. Fodd bynnag, fe fyddwn yn cynorthwyo os nad oes unrhyw un i helpu. Dylai barhau yn gyfrifoldeb y gyrwyr i sicrhau fod gwregysau diogelwch yn cael eu gwisgo'n gywir ond fe fydd archwiliad gweledol fel arfer yn ddigonol. Bydd myfyrwyr sy'n byw yn yr un cartref yn gallu eistedd gyda'i gilydd fel y byddent yn ei wneud cyn Covid-19, a bydd lle priodol yn cael ei wneud a'i sicrhau o'u hamgylch hwy.
- Bydd bysiau yn cael eu hawyru'n dda a byddant yn teithio gyda rhai ffenestri ar agor
- Oherwydd cadw pellter cymdeithasol, fe fydd llai o deithwyr yn teithio ar bob bws – gall hyn olygu darparu bysiau ychwanegol i ddarparu ar gyfer y teithio
- Bydd Gwasanaeth Cludiant Corfforaethol y Cyngor yn cadw mewn cysylltiad agos gyda chi ac ysgol eich plant i sicrhau fod yr holl drefniadau ar gyfer eich plentyn yn cael eu cyfathrebu, ac fe fyddwn yn delio gydag unrhyw ymholiadau. Gellir gwneud hyn dros e-bost, Facebook a Thrydar.
- Os bydd eich plentyn yn dechrau teimlo'n sâl wrth deithio, fe fyddwn yn cysylltu â chi ar unwaith. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gasglu eich plentyn o'r ysgol.

**Yr hyn y byddwn yn ei ddisgwyl gan fyfyrwyr:**

- Cyn teithio, sicrhewch fod eich plentyn wedi golchi ei ddwylo am o leiaf 20 eiliad neu wedi rhoi hylif diheintio arnynt
- Nid oes rhaid gwisgo gorchuddion wyneb, ond efallai bydd dysgwyr am eu gwisgo, yn arbennig yn ystod cyfnodau prysur.
- Rhaid i deithwyr wrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau oddi wrth staff ac ymddwyn yn gyfrifol
- Wrth deithio, dylai eich plentyn arsylwi rheolau cadw pellter cymdeithasol, gan gadw 2 medr ymaith o eraill lle bo hynny'n bosibl, a cheisio wynebu ymaith oddi wrth deithwyr eraill. Dylid osgoi pob cyswllt corfforol gydag eraill
- Lle bo hynny'n bosibl, dylai dysgwyr fynd ar y bws ac at y sedd fwyaf agos at y cefn sydd ar gael
- Pan fydd gwregysau diogelwch yn cael eu gwisgo, dylai myfyrwyr ymdrechu i glymu gwregysau diogelwch eu hunain, ond bydd staff yn eu cynorthwyo os na allant wneud hyn ac nad oes unrhyw un o'u cartref i'w helpu.
- Unwaith y byddant yn cyrraedd eu cyrchfan, dylent ddilyn cyfarwyddyd lleol a golchi eu dwylo am o leiaf 20 eiliad neu ddiheintio eu dwylo cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Noder: Gall unrhyw blant nad ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau na chyngor cadw pellter cymdeithasol oddi wrth y gyrwyr wynebu gwaharddiad dros dro rhag mynd ar gludiant gan fod gennym ddyletswydd gofal tuag at deithwyr eraill ar y cerbyd. Edrychwch ar [God Ymddygiad Teithio Cymru Gyfan.]()**

**Rydym hefyd yn disgwyl i rieni addysgu eu plant ar yr ymddygiadau newydd sy'n ofynnol i sicrhau fod pawb yn teithio mor ddiogel ag sy'n bosibl:**

- Sicrhewch fod eich plentyn yn derbyn cyfarwyddyd ar reoli peswch a thisian yn dda. Edrychwch ar y cyfarwyddyd [Iechyd Cyhoeddus Cymru]()
- Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn gallu tynnu unrhyw orchuddion wyneb a menig y maent yn eu gwisgo yn ddiogel a bod ganddynt Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) i'w wisgo ar deithiau dychwelyd adref. Dylid dilyn cyfarwyddyd lleol i gael gwared ag unrhyw gyfarpar PPE sydd i'w gwaredu.
- Os yw eich plentyn yn dechrau arddangos symptomau coroanfeirws tra maent yn eu lleoliad, dylid eu casglu gan aelod o'r teulu neu'r cartref cyn gynted ag sy'n bosibl a dylid rhoi gwybod i'r Uned Cludiant Corfforaethol ar unwaith trwy ffonio 01597 826678 er mwyn tracio ac olrhain defnyddwyr gwasanaeth eraill a all fod wedi dod i gysylltiad unigolyn posibl sydd wedi'i heintio
- Lle bydd disgybl yn cael ei gasglu o gyfeiriad y cartref ac angen gwisgo gwregys diogelwch, yn ddelfrydol dylai aelod o gartref y plentyn helpu gyda hyn os na all y plentyn glymu gwregys diogelwch ei hunan. Lle bo hynny'n bosibl, dylid dysgu myfyrwyr i glymu gwregys diogelwch eu hunain i helpu cynnal cadw pellter cymdeithasol wrth fynd ar gludiant, ond bydd staff yn helpu os oes angen.
- **Mynd ar y bws i'r ysgol –** Rhaid i ddysgwyr ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y gyrwyr a'r staff. Bydd gofyn i deithwyr eistedd yn y seddi tua'r cefn gyntaf tra'n cydymffurfio â chadw pellter cymdeithasol, a bydd gyrwyr, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol, yn symud o'u seddi cyn i deithwyr fynd ar y bws. Dylai dysgwyr aros yn eu seddi a defnyddio'r un sedd ar y daith adref.
- **Mynd ar y bws i ddychwelyd adref** – bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i lwytho teithwyr yn y drefn gollwng croes (h.y. yr olaf i gael eu gollwng oddi ar y bws i fynd ymlaen yn gyntaf, ac ati) a defnyddio'r un sedd (os yn bosibl) y defnyddiwyd ganddynt wrth deithio i'r ysgol yn y bore

**Os ydych yn gyrru eich plentyn i'r ysgol:**


- Sicrhewch fod eich plentyn wedi golchi eu dwylo am o leiaf 20 eiliad neu wedi'u eu diheintio cyn mynd i'r ysgol
- Lle mae pobl o gartrefi gwahanol angen defnyddio cerbyd ar yr un pryd, gall awyru da (cadw ffenestri'r car ar agor) ac wynebu ymaith o'i gilydd helpu i leihau'r perygl o drosglwyddo'r haint
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cysylltu â'ch ysgol ar gyfer unrhyw fanylion arbennig o ran ardaloedd neu amseroedd gollwng/codi disgyblion.
- I ostwng y perygl o drosglwyddo, ceisiwch osgoi rhag casglu gyda rhieni eraill unwaith y byddwch yn yr ysgol.

Cysylltwch â'r Uned Cludiant Corfforaethol dros e-bost ar buses@powys.gov.uk os nad yw eich plentyn angen cludiant o'r cartref i'r ysgol bellach.


**Cynlluniau seddi dangosol / awgrymedig Cyngor Sir Powys i fysus ysgolion gan ddefnyddio'r rheol 2m at ddibenion cadw pellter cymdeithasol.**

**Nodiadau:** Bydd cynlluniau seddi gwirioneddol yn dibynnu ar gynllun a hyd y cerbyd.
Byddai'n bosibl defnyddio seddi wedi'u lliwio'n las gan deithwyr – gan dybio y gellid cadw at y rheol 2m.


63 seat vehicle = 15 learners at 2m distancing rules. 15 seat rows incorporating DDA W/C Lift (3 axle coach)





70 seat vehicle = 13 learners at 2m distancing rules. 14 seat rows





57 seat vehicle = 13 learners at 2m distancing rules. 14 seat rows




53 seat vehicle = 12 learners at 2m distancing rules. 13 seat rows





49 seat vehicle & WC = 11 learners at 2m distancing rules. 13 seat rows





33 seat coach = 7 learners at 2m distancing rules





32 seat service bus = 7 learners at 2m distancing rules if belted




9 if not belted and internally facing seat is viewed as appropriate





16 seat vehicle = 2 learners at 2m distancing rules (layout dependent)




12 seat vehicle = 2 learners at 2m distancing rules (layout dependent)




8 seat vehicle = 1 learner at 2m distancing rules (layout dependent)




Diolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am gynlluniau’r coetsys.